

CEFN OGI
EICH
PONTIO
I'R COLEG

2023-2024

Credwch **FWY**. Dysgwch **FWY**. Byddwch **FWY**.



01

Ein Cymorth Pontio i Ddysgwyr

02

Ein Digwyddiadau Pontio

03

Ein Partneriaid Pontio

04

Angen Mwy o Wybodaeth?

05


Cwestiynau

Cynnwys

01

**Ein
Cymorth
Pontio
i Bob
Dysgwr**





Rydym yn deall bod dod i'r Coleg yn gam mawr ac nid ydym am i chi fod yn bryderus nac yn nerfus am symud ymlaen o amgylchedd ysgol.



Rydym am sicrhau eich bod yn gwneud y gorau o amgylchedd ein Coleg, eich bod yn datblygu eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch hyder a'ch bod yn symud ymlaen i'r yrfa o'ch dewis.

Bydd ein tîm profiadol iawn o staff yn cynnig 'pontio' person-ganolog i'r Coleg i chi ac yn eich cefnogi'n llawn yn ystod eich amser gyda ni.



GALLWN NI:

- Drefnu ymweliad unigol i chi gyda ffrind, rhiant neu ofalwr i gwrdd â staff ac edrych ar gyfleusterau, adnoddau ac offer y Coleg;
- Rhoi person cyswllt penodol i chi yn y Coleg y gallwch e-bostio neu siarad â nhw os oes gennych unrhyw ymholiadau;
- Trefnu i diwtor cwrs eich ffonio i drafod cwrs penodol - beth mae'n ei olygu, sut mae'n cael ei asesu, gofynion mynediad ac ati;
- Gwneud apwyntiad arweiniad i chi os nad ydych yn siŵr pa gwrs Coleg i wneud cais amdano;
- Trefnu i un o'n tîm cymorth dysgu a lles gysylltu â chi i drafod y cymorth y gallwn ei gynnig e.e. trefniadau trafndiaeth, profiad gwaith, cymorth anghenion dysgu ychwanegol, trefniadau mynediad at arholiadau, cymorth anogwr dysgu, cymorth anogwr bugeiliol, cymorth ariannol a chymorth meddygol;




GALLWN NI:

- Eich helpu i gwblhau eich cais i'r Coleg;
- Eich gwahodd i ddigwyddiadau'r Coleg sy'n berthnasol i'r cwrs yr ydych wedi gwneud cais amdano fel y pantomeim a'r sioeau, arddangosfeydd celf, perfformiadau cerddorol ac ati;
- Ateb eich cwestiynau a rhoi sicrwydd i chi am unrhyw agwedd ar fywyd y Coleg;
- Trefnu i chi siarad â dysgwyr presennol a fynychodd eich ysgol am fywyd Coleg; a
- Anfon manylion atoch am ein Digwyddiadau Agored yn y Coleg, Digwyddiadau Gyrfaedd, Diwrnodau Blasu a'n Rhaglenni Haf.

Ein Hysgolion Partner

Yn ogystal â'r cymorth y gallwn ei ddarparu i bob ymgeisydd, mae gennym drefniadau pontio ychwanegol ar waith ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o un o'n hysgolion partner (Ysgol Bro Gwaun, Ysgol Penrhyn Dewi, Ysgol Gyfun Aberdaugleddau ac Ysgol Portfield).






Mae ein trefniadau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion yr ysgolion hyn yn cynnwys:

- Cynllun pontio unigol ar gyfer yr ysgol;
- Trefnu gyda'ch ysgol i chi ymweld â'r Coleg gyda'ch ffrindiau;
- Cyflwyniadau coleg mewn Gwasanaethau Blwyddyn 11;
- Sgyrsiau cwricwlwm yn ystod BI 11 yn amlygu gyrfaedd penodol a chyfleoedd dilyniant;
- Apwyntiadau arweiniad 1:1 gyda staff cyfarwyddyd cwrs a chymorth dysgu profiadol;
- Presenoldeb mewn Nosweithiau Rhieni ysgol;
- Cynnig teithiau Coleg unigol; a
- Gwahoddiad i ddigwyddiadau blasu cwricwlwm penodol e.e. peirianeg ac ati.

Diogelu Ein Dysgwyr

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau
bod ein holl ddysgwyr yn
teimlo'n ddiogel wrth astudio
yn y Coleg.





Fel coleg rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau diogelu o ddifrif.

Rydym yn Goleg Encompass.


Mae gan y Coleg Swyddog Diogelu dynodedig ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal.

Byddwn yn cymryd rhan yn eich Cynlluniau Llwybr ac Adolygiadau o Gynlluniau Gofal a Chymorth.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau diogelu, neu i roi gwybod i ni am eich pryderon, anfonwch e-bost: safe@pembrokeshire.ac.uk

**Cymorth i
Ddysgwyr ag
Anghenion
Dysgu
Ychwanegol
(ADY)**





Mae gan Goleg Sir Benfro Dîm Pontio Cymorth Dysgu penodedig a fydd yn darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'ch helpu i symud i amgylchedd y Coleg.

Bydd un o'r tîm yn:

- Mynychu Adolygiad Blynyddol neu Adolygiad Pontio eich Ysgol a darparu gwybodaeth am ddarpariaeth dysgu ychwanegol y Coleg (DDY) a chynnig cyngor ac arweiniad ar ddewisiadau cyrsiau'r Coleg;
- Gweithio gyda chi, eich ysgol, rhieni, gofalwyr, a Gyrfa Cymru i sicrhau bod gennym y wybodaeth gywir am y ffordd orau i'ch cefnogi yn ystod eich cyfnod pontio a derbyn i'r Coleg;
- Cynnig ymweliad pontio unigol neu grŵp bach â'r Coleg i chi;

Cymorth i Ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Parhad...

- Gofyn i chi am eich dymuniadau a breuddwydion ar gyfer eich dyfodol;
- Efallai yn eich arsylwi yn eich ystafell ddosbarth yn yr ysgol i asesu eich anghenion cymorth dysgu;
- Trafod sut bydd eich anghenion cymorth dysgu yn cael eu diwallu pan fyddwch yn dod i'r Coleg;
- Eich helpu i wneud cais i'r Coleg a'ch cefnogi drwy'r broses dderbyn;
- Eich cynghori ar y Cludiant sydd ar gael a'r broses ymgeisio;
- Darparu dolenni i wneud cais am gymorth ariannol i eich helpu yn ystod eich cwrs;
- Rhoi dyddiadau Digwyddiadau Agored y Coleg, Diwrnodau Pontio a Chyswllt i chi;



- Rhoi enw cyswllt i chi yn y Coleg a fydd yn gweithio gyda chi i ddatblygu eich pontio personol i'r Coleg;
- Helpu i gynhyrchu neu ddiweddarau eich Proffil Un Tudalen (OPP);
- Eich helpu i wneud cais am drefniadau mynediad arholiadau;
- Eich cefnogi i gael mynediad i gyfleusterau ac offer y Coleg;
- Eich cyfeirio at gyngor ar drafnidiaeth, iechyd, cymorth ariannol a gwasanaethau myfyrwyr;
- Darparu mynediad i ystod eang o dechnoleg gynorthwyol ac addasol, e.e. pennau darllen, gliniaduron, meddalwedd lleferydd i destun, ffotosymbolau;
- Eich cefnogi trwy gydol eich amser yn y Coleg; a
- Eich cefnogi chi gyda'ch camau nesaf unwaith y byddwch yn barod i adael y Coleg.

Cymorth i Ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Parhad...

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gofyn am eich caniatâd i'r ysgol rannu eich gwybodaeth feddygol neu gymorth dysgu fel y gallwn sicrhau y gallwn eich cefnogi'n llawn yn ystod eich rhaglen Coleg. Bydd gofyn i chi lenwi holiadur cymorth dysgu fel rhan o'ch cais am gwrs.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cymorth dysgu sydd ar gael yn y Coleg, neu os ydych am drefnu ymweliad pontio, anfonwch e-bost:

learningsupport@pembrokeshire.ac.uk.

I gael rhagor o wybodaeth am ein cymorth ADY, ein Darpariaeth Dysgu Cyffredinol a'n Darpariaeth Dysgu Ychwanegol, ewch i'n tudalen Gwybodaeth Cymorth Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant ar y wefan.

Cymorth i Ddysgwyr sy'n Bryderus, Ffobig, ag Anghenion Meddygol neu Iechyd

Mae gennym Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol penodedig sy'n cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion meddygol neu anghenion iechyd eraill.


Byddant yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'ch tiwtoriaid a bydd yn eich cefnogi trwy gydol eich cyfnod pontio i'r Coleg ac yn ystod eich amser yn y Coleg.



Cymorth i Ddysgwyr LHDTC+

Mae yna Reolwr Cymorth Dysgu a Chydraddoldeb penodol sy'n cefnogi dysgwyr a allai fod â chwestiynau am fod yn rhan o'r gymuned LHDTC+ yn y Coleg. Mae grŵp PRIDE sy'n cyfarfod yn wythnosol i gynnig cymorth i bob dysgwr a chynghreiriaid LHDTC+. Darperir canllawiau penodol a chyfeirio at LHDTC+ eraill hefyd.





Cymorth i Ddysgwyr sy'n Derbyn Gofal/ Profiad o Ofal

Mae Swyddog Llesiant penodedig sy'n cefnogi dysgwyr sy'n byw, neu sydd wedi byw yn y gorffennol, mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.


Byddant yn eich cefnogi trwy gydol eich cyfnod pontio i'r Coleg ac yn ystod eich amser yn y Coleg.

Cymorth i Ddysgwyr sy'n Ofalwyr Ifanc

Mae yna Arweinydd Gofalwr penodedig sy'n cefnogi dysgwyr sy'n ofalwyr.

Os ydych yn helpu unrhyw un oherwydd eu salwch, eiddilwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, ac os na allant ymdopi heb eich cymorth, a bod y gofal a roddwch yn ddi-dâl, yna rydych yn ofalwr.





Cymorth i Ddysgwyr Mwy Galluog a Thalentog (MAT)

Yng Ngholeg Sir Benfro rydym yn cydnabod, yn cefnogi ac yn dathlu talent ym mhob maes. Mae'r Coleg yn cynnig ei raglenni Mwy Abl a Thalentog (MAT) pwrpasol ei hun yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan mewn strategaethau cenedlaethol fel Cyfres Cystadleuaeth WorldSkills a rhaglen Seren.

Cymorth i Ddysgwyr Mwy Galluog a Thalentog Parhad...

Cyfleoedd MAT Lefel-A

Mae'r Coleg yn falch o gynnig ei amserlen flynyddol ei hun o ddosbarthiadau meistr a gweithdai byw ac wedi'u recordio dan arweiniad y brifysgol, o sefydliadau a gydnabyddir yn fyd-eang fel Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT), Prifysgolion Caergrawnt a Rhydychen ac ystod eang o brifysgolion Cymru a phrifysgolion grŵp Russell uchel eu bri.





Byddwch hefyd yn cael y cyfle i gwblhau ein Dyfarniad Lefel-A a Chymhwyster Prosiect Estynedig pwrpasol ein hunain.

Os nad prifysgol yw eich cyrchfan, rydym hefyd yn gallu darparu gweithdai a phrosiectau dan arweiniad 'Working Options in Education'.

Fel dysgwyr sy'n dangos llwyddiant academiaidd gwych, byddwch hefyd yn cael eich cefnogi i gymryd rhan yn rhwydwaith cenedlaethol Seren os ydych wedi bodloni'r meini prawf a osodwyd gan fwrdd Gweithredol Cenedlaethol Seren. Nodir y rhain isod ar gyfer 2023/24, a chofiwch fod yn ymwybodol y gallant newid:


» Mae'r dysgwr wedi cyflawni 6 gradd A* neu fwy.

Mae rhagor o wybodaeth am Rwydwaith Seren a Hwb Rhanbarthol Sir Benfro ar gael yma: [Seren - Hwb \(gov.wales\)](https://gov.wales/seren-hwb)

Cyfleoedd MAT Galwedigaethol

Fel yr uchod, fe welwch fod
y Coleg yn gallu darparu
amserlen flynyddol i chi gyda
mynediad i siaradwyr gwadd,
gweithdai a gweithgaredd
gan arweinwyr diwydiant lleol
a chenedlaethol yn dibynnu
ar eich maes astudio a
rhagoriaeth.






Mae'r Coleg yn cynnig ei Raglenni Cyrchfan cyffrous ei hun mewn llawer o feysydd galwedigaethol, yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan yng Nghyfres Cystadleuaeth WorldSkills sy'n enwog yn rhyngwladol.

Mae rhagor o wybodaeth am WorldSkills ar gael yma: [WorldSkills UK | Raising Apprenticeships & Technical Education Standards](#)

Pontio i Ddysgwyr Cymraeg eu hiaith

Mae Tîm Datblygu'r Iaith Gymraeg penodedig sy'n cefnogi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i gael cymorth pontio'r Coleg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd y tîm yn sicrhau bod eich dewis iaith yn cael ei ddiwallu ac y byddwch yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy gydol y broses bontio. Os hoffech gael cymorth pontio yn Gymraeg, anfonwch e-bost: ja.morgan@pembrokeshire.ac.uk





Cymorth i Ddysgwyr 14-16

Mae Coleg Sir Benfro yn falch iawn o fod yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Greenhill, Ysgol Harri Tudur ac Ysgol Caer Elen i ddarparu cyrsiau galwedigaethol rhyddhau undydd ar ein campws yn Hwlfordd.


Mae'r cwricwlwm amgen yn werth dau TGAU ac yn addysgu sgiliau bywyd a gwaith i bobl ifanc 14-16 oed. Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC mewn Peirianeg wedi'i hamserlennu yng ngrid opsiynau TGAU yr ysgol sy'n cymryd rhan. Addysgir sgiliau crefft i ddysgwyr mewn gweithdai o safon diwydiant, sy'n eu paratoi i symud ymlaen i brentisiaeth, Diploma BTEC neu Lefel-A yn yr ysgol neu'r Coleg.

Ar gyfer ymholiadau anfonwch e-bost:
admissions@pembrokeshire.ac.uk

02

Ein Digwyddiadau Pontio





Mae Coleg Sir Benfro yn cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau er mwyn i chi ddod i wybod beth yw pwrpas y Coleg:


- Nosweithiau Agored*
- Diwrnodau Pontio Bl 11
- Taith*1-1
- Apwyntiadau Cyfarwyddyd 1-1
- Digwyddiadau Gyrfaodedd
- Dyddiau Blasu
- Nosweithiau Bistro
- Arddangosfeydd Celf
- Perfformiadau Theatrïg a Cherddorol

*cyfeiriwch at wefan y Coleg am ragor o wybodaeth

03

Ein Partneriaid Pontio





Profwyd bod pontio sydd wedi'i gynllunio'n gywir mewn modd amserol ac wedi'i gydgyssylltu o amgylch anghenion y dysgwr yn cynyddu cyfraddau cadw a dilyniant i addysg bellach a hyfforddiant yn sylweddol ac yn y pen draw i gyflogaeth gynaliadwy.

Mae'r Coleg yn gweithio gydag ystod o bartneriaid pontio aml-asiantaeth sydd hefyd yn ymwneud â'r dysgwr i wneud yn siŵr bod y wybodaeth gywir am y dysgwr yn cael ei rhannu er mwyn sicrhau pontio llwyddiannus i'r Coleg.


Mae ein Partneriaid Pontio Allweddol yn cynnwys:

- » Rhieni a Gofalwyr
- » Cynghorwyr Gyrfa Cymru
- » Swyddogion Pontio, Penaethiaid Blwyddyn a Chydlynedd ADY pob un o Ysgolion Uwchradd Sir Benfro
- » Tîmau Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynhwysiant ac Addysg Cyngor Sir Penfro

04

Angen Mwy o Wybodaeth?





Am ragor o wybodaeth, neu ddiweddariadau ar yr hyn sy'n digwydd yn y Coleg, edrychwch ar ein gwefan neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

-  colegsirbenfro.ac.uk
-  [@PembsCollege](https://twitter.com/PembsCollege)
-  [pembscollege](https://www.instagram.com/pembscollege)
-  [@pembscollege](https://www.facebook.com/pembscollege)
-  info@pembrokeshire.ac.uk
-  **01437 753 000**


Ar ein gwefan byddwch hefyd yn dod o hyd i wybodaeth am: drafnidiaeth, cymorth ariannol, Darpariaeth Dysgu Cyffredinol (DDC) y Coleg a Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY).

Ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu mwy cymhleth ac sy'n dymuno datblygu eu sgiliau bywyd, ewch i'n Hacademi Sgiliau Bywyd.

05

Cwestiynau





Os oes gennych unrhyw gwestiynau,
neu os hoffech drefnu ymweliad,
anfonwch e-bost:

admissions@pembrokeshire.ac.uk

Edrychwn ymlaen at gefnogi eich
pontio llwyddiannus i Goleg Sir Benfro.

**Welwn ni chi
cyn bo hir.**



COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

Cysylltwch...



@PembsCollege



pembscollege



@pembscollege



info@pembrokeshire.ac.uk



01437 753 000



colegsirbenfro.ac.uk

COLEG SIR BENFRO

Merlins Bridge
Hwlfordd
Sir Benfro
SA611SZ